**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **12 MAWRTH 2009** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2009/10** |
| PWRPAS | **CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2009 - 31 MAWRTH 2010** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYNNIG SYLWADAU AR Y CYNLLUN YN YR ATODIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir cynllun drafft o waith yr Adain Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2009/10 (yn Atodiad 2) er sylwadaeth gan y Pwyllgor Archwilio.

1.2 Mae Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2006 yn datgan (paragraff 7.2.4):

> "Dylai'r pwyllgor archwilio gymeradwyo, ond nid cyfeirio, y cynllun archwilio."

1.3 Mae gweddill yr adroddiad yma'n egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses dechnegol a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor.

## 2. CYNLLUNIO GWAITH

2.1 Yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2007 cyflwynwyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-2011 drafft i'r Pwyllgor Archwilio. Y strategaeth yma sydd yn sail i waith Archwilio Mewnol am y cyfnod dan sylw, ac mae'n esbonio sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd am y rheolaethau mewnol sydd yn eu lle o fewn Cyngor Gwynedd. Mae'r Strategaeth wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

2.2 Mae'r rhaglen archwilio rhannau o'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn gosod allan sut y dewisir darnau penodol o waith i'w cynnwys yn y cynllun archwilio blynyddol. Tynnir sylw'r Pwyllgor yn benodol at y rhannau canlynol:

| Rhan | Disgrifiad | Effaith ar y cynllun |
|---|---|---|
| 2.7–2.8 | Systemau Ariannol Sylfaenol | Gwaith ar bob system penodol wedi eu pennu ar sail yr archwiliad system llawn diwethaf, materion sydd wedi codi a/ neu'r angen am waith dilyniant. |
| 2.9-2.10 | Grantiau | Amser wedi ei neilltuo ar gyfer sicrhau fod hawliadau grantiau yn cydymffurfio â gweithdrefnau mewnol. Bydd ymdrech nid yn unig i osgoi unrhyw ddyblygu gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, ond hefyd i adolygu'r amgylchedd reolaeth cyn adolygiad yr archwilwyr allanol. Bwriad hyn yw lleihau'r angen am adolygiad llawn gan SAC gan felly leihau'r ffioedd sydd yn daladwy gan yr awdurdod. |

| Rhan | Disgrifiad | Effaith ar y cynllun |
|---|---|---|
| 2.11 | Archwiliadau sy'n rhan o amodau cyllido | Mae nifer o grantiau penodol o'r Cynulliad, yn enwedig ym maes Addysg, bellach yn gofyn am fewnbwn uniongyrchol Archwilio Mewnol. Mae'r rhain yn cynnwys y Grant Ysgolion Bro, Grant Gwisg Ysgol, Grant Trosglwyddo rhwng cyfnodau 2 a 3 a'r Grant Addysg Ôl-16 ac, am y tro cyntaf eleni, y Grant Brecwast am Ddim. |
| 2.12-2.16 | Ysgolion | Archwiliadau ysgolion cynradd i gael eu cynnal ar sail thêm. Hefyd, mae 5 ysgol uwchradd a 3 ysgol arbennig yn 2009/10 i'w hadolygu. |
| 2.17 | Canolfannau Hamdden | Pedair canolfan hamdden wedi ei chynnwys yn unol â'r strategaeth. |
| 2.18 | Contractau | Gwaith arbenigol ar gontractau'r awdurdod, wedi eu gosod i'r timoedd archwilio penodol yn unol â'r Strategaeth. |
| 2.20 | Gwaith Gwrth-Dwyll | Bydd ystyriaeth gwrth-dwyll mewn nifer o'r archwiliadau, yn enwedig mewn sefydliadau a safleoedd y tu hwnt i'r brif swyddfa. |
| 2.21 | Rheoli Prosiectau | Bwriedir edrych ymhellach ar y Prosiect e-Gaffael, i adeiladu ar waith 2008/09. |
| 2.22–2.24 | Llywodraethu Corfforaethol | Sawl archwiliad ar wahanol agweddau o lywodraethu corfforaethol wedi eu cynnwys yn y cynllun. |

2.3 Lluniwyd gweddill y cynllun trwy ystyried gweithgareddau pob uned fusnes o fewn yr awdurdod, a cynnal asesiad risg ar y gweithgareddau hyn er mwyn adnabod meysydd i'w harchwilio.

## 3. CYNLLUN ARCHWILIO GWEITHREDOL

3.1 Mae'r cynllun archwilio drafft ar gyfer 2009/10 wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

3.2 Bydd angen 1,573 diwrnod o adnoddau archwilio i gwblhau'r cynllun archwilio. Yn ogystal â hyn mae'r darpariaethau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynllun:

- Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb — 64 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol — 132 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer dilyniant — 140 diwrnod

3.3 Mae'r dyddiau hyn yn adlewyrchiad o'r hyn sydd wedi profi'n angenrheidiol yn ymarferol.

3.4 Mae'r cynllun drafft wedi derbyn cymeradwyaeth y Pennaeth Cyllid, ac mae trafodaethau gyda'r phenaethiaid gwasanaeth eraill a rheolwyr perthnasol yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Lle'n berthnasol, mae eu sylwadau wedi / byddant yn cael eu hymgorffori yn y cynllun.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010, yn ddarostyngedig i fân addasiadau yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.

**CYNGOR GWYNEDD**

**CYFADRAN ADNODDAU – GWASANAETH CYLLID**

**STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2008-2011**

## CYNNWYS

1. **Amcanion a Deilliannau Archwilio Mewnol -** *Y cyfraniad y mae Archwilio Mewnol yn anelu i'w wneud i Cyngor Gwynedd yn ystod y 2008-2011, a sut y bydd yn gwneud hynny*
2. **Yr Amgylchedd Reolaeth, y Datganiad Rheolaeth Fewnol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol –** *Y gwaith a gaiff ei gwblhau gan Archwilio Mewnol er mwyn darparu sicrwydd cadarnhaol a rhesymol er mwyn galluogi'r Rheolwr Archwilio a Risg i gynnig barn ar yr amgylchedd reolaeth i danategu'r Datganiad o Reolaeth Fewnol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol*
3. **Adnabod a delio â risgiau –** *sut bydd Archwilio Mewnol yn adnabod a delio â materion a risgiau lleol a chenedlaethol arwyddocaol wrth gynllunio a cyflawni ei waith*
4. **Darpariaeth Archwilio Mewnol -** *Y ffyrdd y bydd adnoddau archwilio mewnol ac arbenigol yn cael eu caffael (h.y. yn fewnol, yn allanol neu cyfuniad o'r ddau)*
5. **Adnoddau a Sgiliau -** *Y dulliau o recriwtio / hyfforddi / datblygiad proffesiynol parhaus o staff archwilio mewnol er mwyn sicrhau fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol a chyflawni'r strategaeth yma*

## 1. AMCANION A DEILLIANNAU

1.1 Nod yr Adain Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i'r Pennaeth Cyllid, ac fel canlyniad i drigolion Gwynedd, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a'u defnyddio'n briodol, gyda thryloywder. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor ar yr amgylchedd reolaeth trwy gyynnal archwiliadau ar systemau ariannol a trefniadau rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnal cyfuniad o archwiliadau risg, system, rheoleidd-dra, cyfrifiadurol a chontractau ar ystod eang o unedau busnes y Cyngor, yn unol â strategaeth yma a chynlluniau archwilio yn deillio ohono.

1.2 Bydd y Rheolwr Archwilio a Risg yn sicrhau fod archwilio mewnol yn cael ei ddarparu yn unol â'r Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol ("y Côd Ymarfer") cyn belled a bo hynny yn ymarferol. I'r perwyl hwn, mae'r Rheolwr Archwilio a Risg wedi paratoi'r strategaeth archwilio yma sydd yn amlinellu anghenion archwilio y Cyngor am gyfnod y strategaeth. Bydd cynlluniau archwilio blynyddol yn deillio o'r cynllun strategol ac ymgynghoriad gydag Uwch Swyddogion, a byddant yn cael eu cytuno gyda'r Pennaeth Cyllid cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w mabwysiadu.

1.3 Wrth gynllunio a chynnal ei waith, bydd Archwilio Mewnol yn rhoi sylw arbennig i werthodd datganedig y Cyngor a'i gynorthwyo, trwy gynnal adolygiadau priodol, i sicrhau ei fod yn:

- agored ac ymatebol
- gynaliadwy
- gofalu
- gynhwysol a chydradd
- flaengar
- gweithio ar y cyd
- dysgu

a hynny mewn modd priodol sydd yn ystyried yr holl risgiau a threfniadau rheoli angenrheidiol.

1.4 Y prif fygythiad all rwystro Archwilio Mewnol rhag cyrraedd ei amcanion yw methiant i gydymffurfio â'r Côd Ymarfer oherwydd un neu fwy o'r canlynol:

- Swyddfa Archwilio Cymru yn methu rhoi sicrwydd ar waith yr Adain, ac yn adrodd ar hynny yn eu harchwiliad o'r cyfrifon.
- Methiant i gyfawni cyfran digonol o'r cynllun, yn unol â thargedau.
- Methiant i gwblhau archwliadau unigol o fewn amser.
- Methiant i ddarparu gwasanaeth i'r safon digonol, gan arwain at fethiant i nodi gwendidau rheolaethol difrirfol neu dwyll, neu rhoi arweiniad anghywir.

1.5 Y Rheolwr Archwilio a Risg fydd yn gyfrifol am sicrhau fod y gwasanaeth yn parhau i gael ei gynnal yn unol â gofynion y Côd Ymarfer, a hynny drwy gynnal adolygiad hunan-arfarnu yn erbyn y safonau yma o leiaf unwaith y flwyddyn.

1.6 Caiff perfformiad yr Adain Archwilio Mewnol ei fesur yn unol â threfn gorfforaethol y Cyngor, dan arweiniad y Gwasanaeth Polisi a Perfformiad. Ni fydd Archwilio Mewnol yn ceisio gwyro o'r drefn yma mewn unrhyw fodd, ar wahân i ddarparu gwybodaeth ar berfformiad i'r Pwyllgor Archwilio (yn ychwanegol i, nid yn lle, y trefniadau corfforaethol), a hynny fel rhan o adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

1.7 Mae Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol a Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn gosod allan y trefniadau adrodd a ddefnyddir gan Archwilio Mewnol. Strategaeth y gwasanaeth am y 3 blynedd nesaf fydd i barhau i adrodd yn yr un modd.

## 2. YR AMGYLCHEDD REOLAETH, Y DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

2.1 Mae Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006 ("y Côd Ymarfer") yn diffinio Archwilio Mewnol fel a ganlyn:

> **"Swyddogaeth rhoi sicrwydd yw Archwilio Mewnol sydd yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i gyfundrefn ar yr amgylchedd reolaeth wrth werthuso ei effeithiolrwydd tra'n gwireddu amcanion y gyfundrefn. Mae'n archwilio, gwethuso ac adrodd yn wrthrychol ar ddigonolrwydd yr amgylchedd reolaethol fel cyfraniad i'r defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau."**

2.2 Mae'r amgylchedd reolaeth yn cynnwys y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, ac mae cwmpas gwaith Archwilio Mewnol yn ymestyn i amgylchedd reolaeth gyfan y sefydliad – nid risgiau ariannol yn unig.

2.3 Nid oes modd archwilio pob agwedd o risg a rheolaeth pob blwyddyn, ond o fewn y gyfundrefn risg a rheolaeth bydd rhai systemau o risg uchel angen adolygiad blynyddol er mwyn i archwilio mewnol allu darparu'r sicrwydd angenrheidiol.

2.4 Yn gyffredinol, fodd bynnag, prin iawn yw'r meysydd hynny fydd angen adolygiad llawn pob blwyddyn. Bydd cynllunio gwaith archwilio mewnol yn cynnwys asesiad o'r risgiau ar draws y Cyngor i gyd, yn systematig fesul uned fusnes, er mwyn llunio rhaglen waith manwl blynyddol sydd yn ystyried yr adnoddau archwilio sydd ar gael. Bydd archwiliadau yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ar y trefniadau sydd yn eu lle i liniaru'r risgiau hyn.

2.5 Fodd bynnag, yn ogystal â'r methodoleg a amlinellir ym mharagraff 2.4 uchod, adnabuwyd rhai meysydd sydd yn gwarantu sylw penodol yn y Strategaeth yma, sef:

- Systemau Ariannol Sylfaenol
- Grantiau
- Archwiliadau sy'n rhan o Amodau Cyllido
- Ysgolion
- Canolfannau Hamdden
- Contractau
- Defnydd Adnoddau
- Gwaith Gwrth-Dwyll
- Rheoli Prosiectau
- Llywodraethu Corfforaethol

2.6 Mae gweddill y rhan yma o'r Strategaeth yn esbonio sut y byddwn yn ymdrin â'r meysydd archwilio uchod yn ystod 2008-2011.

Systemau Ariannol Sylfaenol

2.7 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adnabod y systemau ariannol sylfaenol canlynol sydd angen sylw gan Archwilio Mewnol yn flynyddol:

- Y Prif Gyfriflyfr
- Taliadau
- Dyledwyr
- Cyflogau
- Derbyn Arian
- Rheoli Trysorlys
- Cysoni Banc
- Trethiant Lleol
- Budd-daliadau

2.8 Strategaeth Archwilio Mewnol fydd i gynnal adolygiad systemau manwl, llawn ar y systemau hyn bob yn ail flwyddyn, ond gan asesu'r risgiau rheolaeth yn barhaol. Wrth baratoi'r cynllun archwilio blynyddol, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:

- Blwyddyn archwilio yr adolygiad llawn diweddaraf
- Datblygiadau yn y system
- Meysydd risg penodol sydd wedi codi yn ystod yr archwiliad manwl sydd yn gwarantu adolygiad pellach
- Unrhyw faterion na fu'n bosib eu harchwilio yn ystod yr archwiliad system diweddaraf am ba bynnag reswm
- Digwyddiadau yn ystod y cyfnod ers yr adolygiad llawn diwethaf sydd wedi amlygu risgiau newydd
- Newidiadau deddfwriaethol.

Grantiau

2.9 Gall grantiau, yn enwedig grantiau Ewropeaidd, fod yn faes o risg uchel, o ystyried y bygythiad y gall arian gael ei grafangu'n ôl gan y corff cyllido os oes pryderon yn bodoli am weinyddiaeth grantiau.

2.10 Gan ddilyn yr egwyddor ei bod yn well fod unrhyw wendidau mewn gweinyddiaeth yn cael eu hamlygu yn gynnar gan Archwilio Mewnol, yn hytrach na gan arcwhwilwyr allanol pan y gall fod yn rhy hwyr, bydd gweinyddiaeth sampl o grantiau ar draws y Cyngor yn cael eu harchwilio yn flynyddol.

Archwiliadau sy'n rhan o Amodau Cyllido

2.11 Mewn rhai achlysuron, bydd y corff sy'n ariannu cynllun penodol yn mynnu adolygiad archwilio mewnol, unai yn flynyddol neu yn achlysurol. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn deillio o Lywodraeth y Cynulliad. Bydd amser penodol yn cael ei neilltuo yn y cynllun archwilio blynyddol lle mae'n ofynnol, fel rhan o'r amodau cyllido, i Archwilio Mewnol gynnal adolygiadau.

Ysgolion

2.12 Yn dilyn cyfnod y strategaeth flaenorol, sef 2005-2008, ymddengys y byddai'n fuddiol i ail ystyried dyraniad anoddau archwilio i ysgolion ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Mae asesiad o brofiadau'r 3 blynedd diweddaf yn awgrymu fod ymweliad ag ysgolion uwchradd pob 2 flynedd ychydig yn ormodol, ond fod angen ymweld â'r ysgolion cynradd yn amlach.

2.13 Fel canlyniad, strategaeth Archwilio Mewnol am 2008-2011 fydd cynnal adolygiadau sefydliad llawn, "traddodiadol" ar yr 14 ysgol uwchradd a'r 3 ysgol arbennig pob 3 blynedd.

2.14 Mae gan Wynedd 106 o ysgolion cynradd. Bydd cyfnod y strategaeth yma yn gyfnod o newidiadau mawr yn nhrefniadaeth ysgolion cynradd y sir, a all effeithio ar asesiadau risg.

2.15 Bydd ysgolion cynradd parhau i gael ar harchwilio ar sail thema, fydd yn eu tro wedi eu penderfynu ar sail asesiad risg. Y bwriad yw peidio dewis sampl o ysgolion cynradd ar gyfer yr archwiliadau hyn ar hap, ond yn hytrach anelu i ymweld â phob ysgol gynradd yn gyfnodol wrth gynnal yr adolygiadau hyn, gan anelu i ymweld â phob ysgol gynradd pob 3 blynedd.

2.16 Bydd y rhestr o pa ysgolion cynradd fydd yn derbyn ymweliad Archwilio Mewnol ac ym mha flwyddyn yn oes y strategaeth yn cael ei lunio cyn cychwyn blwyddyn ariannol 2008/09. Bydd hyn yn sicrhau ymweliad Archwilio Mewnol â phob ysgol cynradd yn ystod cyfnod y strategaeth.

Canolfannau Hamdden

2.17 Yn ystod 2005-2008, byddai canolfannau hamdden y Cyngor yn cael eu harchwilio pob 2 flynedd. Tra fod y sefydliadau hyn yn parhau'r feysydd o risg uchel, yn 2008-2011 bydd y canolfannau yn cael eu harchwilio pob 3 blynedd, ond gyda mwy o feysydd risg yn cael eu cynnwys yn yr archwiliad. Fel canlyniad, er y bydd y canolfannau yn cael eu harchwilio yn llai aml, bydd mwy o amser yn cael ei wario ar pob archwiliad unigol.

Contractau

2.18 Y strategaeth archwilio contractau dros y cyfnod fydd i barhau i symud i ffwrdd o'r trefniadau traddodiadol o gynnal archwiliadau manwl ar gyfrifon terfynol, gan annog gwasanaethau i ddarparu pecyn o bapurau gwaith gyda phob cyfrif terfynol. Ar gyfer cyfnod 2008-2011, y strategaeth ar gyfer cynllunio gwaith archwilio contractau fydd:

- Contractau Cyfalaf sy'n ymwneud â chaffael systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu – archwiliadau i'w cynnal gan y Tîm Archwilio Adnoddau a Chorfforaethol
- Contractau Cyfalaf eraill – archwiliadau i'w cynnal gan y Tîm Archwilio Amgylchedd
- Contractau Refeniw – archwiliadau i'w cynnal gan y tîm archwilio cyfadrannol perthnasol.

Defnydd Adnoddau

2.19 Bydd cyfnod 2008-2011 yn dair blynedd ble bydd rhaid canfod arbedion ariannol sylweddol o fewn y Cyngor, unai trwy wella effeithlonrwydd neu dorri gweithgareddau. Bydd y risgiau sydd ynghlwm â hyn yn cael sylw a blaenoriaeth uchel pan yn cynllunio gwaith archwilio mewnol, gan gynnwys ystyriaeth o'r systemau rheolaeth fewnol fydd yn cael eu heffeithio gan doriadau mewn gwasanaeth, ac adolygiadau gwerth am arian ble'n briodol.

Gwaith Gwrth-Dwyll

2.20 Nid cyfrifoldeb Archwilio Mewnol ydi canfod twyll. Fodd bynnag, mae'r risg o dwyll yn real, ac yn rhywbeth y mae'n rhaid i bawb sydd yn ymdrin ag arian cyhoeddus fod yn ymwybodol ohono. Fel rhan o Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-2011, bydd archwiliadau penodol, rhagweithiol yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau archwilio blynyddol er mwyn cael sicrwydd fod y risg o dwyll yn cael ei ystyried a'i liniaru ar draws yr Awdurdod.

Rheoli Prosiectau

2.21 Mae cyfundrefn rheoli prosiectau wedi ei gyflwyno yn y Cyngor, yn seiliedig ar egwyddorion methodoleg PRINCE2. Bydd y Rheolwr Archwilio a Risg yn datblygu trefniadau ar gyfer rôl Archwilio Mewnol mewn Rheoli Prosiect yng Nghyngor Gwynedd, ac yn sicrhau mewnbwn priodol i brosiectau arwyddocaol yr awdurdod.

Llywodraethu Corfforaethol

2.22 Mae disgwyl i Archwilio Mewnol gynnal adolygiadau a chynnig barn ar drefniadau llywodaethu'r awdurdod. Bydd archwiliadau o'r math yma yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau archwilio blynyddol, gan gynnwys archwiliadau ar y cyd gydag Uned Briodoldeb y Cyngor mewn meysydd perthnasol, yn unol â protocol cydweithio sydd wedi ei sefydlu. Bydd y meysydd i'w harchwilio yn cael eu hadnabod mewn trafodaethau gyda'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Priodoldeb.

2.23 Mae'r angen am Ddatganiad Rheolaeth Fewnol wedi bod yn statudol ers rhai blynyddoedd bellach, gyda'r DRhF yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar yr un pryd â'r Datganiadau Cyfrifon.

2.24 Yn ystod oes y Strategaeth Archwilio Mewnol yma, mae disgwyl y daw gofyn am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol (*Annual Governance Statement*) i rym. Bydd y DLlB yn ymgorffori'r wybodaeth a'r sicrwydd sydd eisioes wedi eu cynnwys yn y DRhF, ond ym mynd ymhellach o ran cynnwys gwybodaeth am drefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr awdurdod. Bydd y gofynion hyn yn derbyn sylw fel rhan o'r broses o gynllunio gwaith Archwilio Mewnol.

## 3. ADNABOD A DELIO Â RISGIAU

3.1 Mae'r broses gorfforaethol o adnabod bygythiadau a chyfleon (h.y. adnabod risgiau) yn rhan o drefniadau cynllunio busnes – "Cyflawni" – yr awdurdod. Bydd y risgiau sydd wedi eu hadnabod yn y broses yma gan pob uned fusnes yn cael eu hystyried fel rhan o broses cynllunio gwaith Archwilio Mewnol (gweler paragraff 2.4).

3.2 Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn rhan o Uned Archwilio a Risg o fewn y Gwasanaeth Cyllid. Oherwydd hyn, fe fydd perthynas agos rhwng darpariaeth y gwasanaeth sydd yn cydlynnu ymdrechion rheolwyr y Cyngor i adnabod, cofnodi a rheoli eu risgiau, a'r gwasanaeth o fewn y Cyngor sydd yn ei le er mwyn sicrhau fod y rheolaethau sydd yn lliniaru'r risgiau hyn yn gweithio yn effeithiol.

3.3 Mae timau ar wahân yn gyfrifol am weithredu'r ddau swyddogaeth, ond y Rheolwr Archwilio a Risg yn gyfrifol am reoli'r ddwy ddisgybliaeth o fewn y Cyngor. Fel canlyniad, pwysleisir:

- Fod rhaid i'r swyddogaeth rheoli risg o fewn y Cyngor gydweithio mewn partneriaeth agos gyda rheolwyr yr awdurdod i ddatblygu'r asesiad risg corfforaethol
- Mai perchnogaeth rheolwyr y Cyngor, nid yr Uned Archwilio a Risg, ydi'r asesiad risg corfforaethol
- Nad yw ymlyniad y Rheolwr Archwilio a Risg yn rhwystro Archwilio Mewnol rhag rhoi barn annibynnol a gwrthrychol ar ddigonorwydd rheolaeth risg mewn unrhyw feysydd penodol.

## 4. DARPARIAETH ARCHWILIO MEWNOL

4.1 Strategaeth Archwilio Mewnol am y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2011 fydd i gynnal gwasanaeth mewnol, gan brynu ychydig o arbenigedd mewn meysydd penodol. Nid yw'r strategaeth yn cynnwys cynnal adolygiadau ar y cyd gyda cyrff allanol.

4.2 Bydd rheolaeth o fewn yr Adain Archwilio Mewnol yn parhau i ddilyn trefn hirearchaidd syml. Bydd gan pob un o'r timau archwilio arweinydd, fydd yn gyfrifol am drefnu, goruchwylio ac adolygu gwaith eu tîm; bydd y pedwar arweinydd tîm yn atebol i'r Rheolwr Archwilio a Risg.

4.3 Bydd Archwilio Mewnol yn prynu gwasanaeth archwilwyr dros dro gan asiantaethau recriwtio arbenigol dim ond pan fydd hyn yn gwbl angenrheidiol, er mwyn llenwi dyddiau archwilio a gollwyd oherwydd salwch neu swyddi gwag.

4.4 Rhagwelir y bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn parhau i gael un cwsmer allanol, sef Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ni fydd yr adain yn chwilio am gwsmeriaid allanol eraill ac os bydd corff allanol yn gwneud cais am wasanaeth yr adain cynhelir asesiad trylwyr a chynhwysfawr cyn dod i gasgliad ar y cynnig.

<u>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</u>

4.5 Er mwyn ategu'r sgiliau sydd eisioes yn eu lle, bydd Archwilio Mewnol yn defnyddio arbenigwyr ym maes Technoleg Gwybodaeth er mwyn cynorthwyo gydag archwiliadau penodol, ond rhagwelir y bydd yr angen yma yn llai na'r hyn a fu yn y dair blynedd blaenorol yn sgil datblygu capasiti mewnol.

## 5. ADNODDAU A SGILIAU

5.1 Mae strwythr yr Adain Archwilio Mewnol yn 11.5 o staff (cyfatebol i amser llawn), heb gynnwys y Rheolwr Archwilio a Risg. Mae'r adnoddau staff hyn wedi eu rhannu i bedwar tîm archwilio, pob un yn gyfrifol am archwilio un o gyfadrannau'r cyngor. Mae union niferoedd yr archwilwyr ym mhob un o'r timau hyn wedi eu dyrannu ar sail asesiad o'r nifer dyddiau archwilio sydd yn angenrheidiol ar gyfer pob cyfadran, ond bydd lefel o hyblygrwydd yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau fod cynlluniau archwilio blynyddol yn parhau i roi'r gorchudd archwilio angenrheidiol. Bydd staff yn cael eu symud rhwng timoedd fel sy'n briodol.

5.2 Fel rhan o'r broses o adnabod yr adnoddau archwilio sydd ar gael, bydd y Rheolwr Archwilio a Risg hefyd yn creu cyllideb amser i pob archwiliwr fydd yn cynnwys amcangyfrif amser ar gyfer pethau megis gwyliau, salwch a rheolaeth.

5.3 Bydd pob cynllun manwl blynyddol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith ymgynghorol/cynghori, archwiliadau ymatebol/ymchwiliadau arbennig a gwaith dilyniant. Bydd y darpariaethau hyn wedi eu llunio ar sail hanesyddol, ond gan gynnwys isafswm o 150 diwrnod ar gyfer archwiliadau ymatebol/ymchwiliadau arbennig ac isafswm o 75 diwrnod ar gyfer gwaith ymgynghorol/cynghori.

<u>Hyfforddiant a Sgiliau</u>

5.4 Strategaeth yr Adain Archwilio Mewnol am y dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2011 fydd parhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r cymysgedd o sgiliau a phrofiad o fewn y gwasanaeth, wedi'i gynorthwyo gan "fatrics cymwyseddau" ac adolygiadau ôl-archwiliad, yn ogystal â'r gyfundrefn gwerthuso staff gorfforaethol. Bwriedir parhau i anelu i gael isafswm o 2 archwiliwr (heb gynnwys y Rheolwr Archwilio a Risg) sydd yn gymwysiedig â chorff CCAB neu'r IIA, yn ogystal a sicrhau fod o leiaf un archwiliwr yn derbyn hyfforddiant tuag at gymhwyster broffesiynol ar unrhyw adeg.

5.5 Bydd Archwilio Mewnol wedi ei ymglymu hefyd i gynnal hyfforddiant i bob un o'r archwilwyr. Bwriedir cynnal tri cwrs y flwyddyn ar sgiliau archwilio, unai yn fewnol neu ar y cyd gyda chynghorau eraill, a bydd disgwyl i bob un o'r archwilwyr fynychu'r rhain. Mae hyn uwchlaw unrhyw hyfforddiant arbenigol penodol y bydd yn disgwyledig i swyddogion ei dderbyn.

5.6 Bydd pob archwiliwr sydd yn aelod o gorff proffesiynol hefyd yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) yn unol â gofynion y corff penodol hwnnw.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2009/10

| Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | |
| Defnydd Ymgynghorwyr | **20.00** |
| Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | **15.00** |
| Fframwaith Lywodraethu Gorfforaethol | **20.00** |
| Cyfrannu at Ddarparu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **20.00** |
| Llywodraethu Corfforaethol - Adolygiad Cymharol | **10.00** |
| Rheoli Contractau - Ymweliadau Safle | **6.00** |
| Rheoli Contractau - Bondiau Perfformiad | **4.00** |
| Rheoli Contractau - Contractau SBIG | **10.00** |
| Telerau Contractau a Dogfennau Tendro | **5.00** |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru | **10.00** |
| Grantiau Gwasanaethau Amgylchedd llai na £100,000 | **10.00** |
| Rheolaeth Gyllidebol | **25.00** |
| NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **40.00** |
| Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes | **16.00** |
| Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol | **25.00** |
| **GWASANAETH ADNODDAU DYNOL** | |
| **Iechyd a Diogelwch** | |
| Archwiliadau Iechyd a diogelwch | **15.00** |
| **GWASANAETH CEFNOGAETH GOFAL CWSMER** | |
| **Cyfathrebu** | |
| Diweddaru'r wefan a'r safle mewnrwyd | **15.00** |
| **Gofal Cwsmer** | |
| Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd | **15.00** |
| **Gwybodaeth** | |
| Cofrestr Tir ac Eiddo (Uned Wybodaeth) | **10.00** |
| Uned Rheoli Cofnodion | **10.00** |
| **Stadau Eiddo** | |
| Cynllun Rheoli Asedau | **20.00** |
| **Technoleg Gwybodaeth** | |
| Logio a Monitro | **10.00** |
| Rheolaeth Asedau Caledwedd | **10.00** |
| Trefniadau archebu Nwyddau TG | **10.00** |
| Contractau TGCh | **10.00** |

Draft

| Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|
| Rheolaeth Cyfrifon Defnyddwyr | **5.00** |
| **GWASANAETH CYLLID** | |
| **Ar draws y gwasanaeth** | |
| Rheolaeth Sieciau | **20.00** |
| Trwyddedau Systemau Cyllid | **25.00** |
| **Cyflogau** | |
| System Personel-Cyflogau Newydd | **20.00** |
| **Cyfrifeg Ganolog** | |
| Tendr Bancio | **12.00** |
| Dychweliadau Treth | **12.00** |
| Preseptau | **10.00** |
| Cysoni Banc | **20.00** |
| **Pensiynau** | |
| Pensiynau | **40.00** |
| **Rheolaeth Trysorlys** | |
| Rheolaeth Trysorlys - Strategaeth Newydd | **10.00** |
| **Treth Cyngor** | |
| System Treth Cyngor - Fformiwlau ac Algorithmau | **25.00** |
| Trethiant Lleol - Cytundeb Argraffu | **10.00** |
| **Treth Ddi-Annedd** | |
| Treth Di-Annedd - Rhestr werthuso | **20.00** |
| **Uned Gyllid Datblygu** | |
| Addysg All-Sirol - Trefniadau Anfonebu | **10.00** |
| **GWASANAETH CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH** | |
| **Cefn Gwlad a Mynediad** | |
| Llwybrau Cyhoeddus | **6.00** |
| **Cynllunio** | |
| Cytundebau Adran 106 | **15.00** |
| **Gofal stryd a thrafnidiaeth integredig** | |
| Gorchmynion Ffyrdd | **20.00** |
| **Rheolaeth a Chefnogaeth Weinyddol Gwarchod y Cyhoedd** | |
| Gwarchod y Cyhoedd - Defnydd Flare; Rheoli Gwaith | **15.00** |
| **GWASANAETH ECONOMI AC ADFYWIO** | |
| **Adfywio Cymunedol** | |
| Cist Gwynedd | **15.00** |
| **Cefnogi Busnes** | |
| Benthyciadau Cefnogi Busnes | **15.00** |
| **Cynllunio Strategol ac Ariannu** | |
| Cyfrifon Terfynol: Uned Adfywio | **5.00** |

Draft

| Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|
| Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | **12.00** |
| **Gwasanaethau Ieuenctid a Chymuned a Chyllid Myfyrwyr** | |
| Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr | **12.00** |
| **Morwrol a Pharciau** | |
| Yr Hafan, Pwllheli | **15.00** |
| Gwasanaeth Morwrol | **20.00** |
| **GWASANAETH GWEINYDDOL A CHYFREITHIOL** | |
| **Cofrestru** | |
| Trefniadau Etholiadau | **6.00** |
| Gweinyddu'r Gofrestr Etholiadol | **10.00** |
| Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | **20.00** |
| **Gwasanaethau Aelodau** | |
| Hyfforddi Aelodau | **8.00** |
| **GWASANAETH POLISI A PHERFFORMIAD** | |
| Cefnogi Pobl | **25.00** |
| **Caffael** | |
| Prosiect e-Gaffael | **15.00** |
| Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru | **15.00** |
| **GWASANAETH PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | |
| **Uned Comisiynu** | |
| Strategaeth Gwastraff | **20.00** |
| Safleoedd Gwastraff Ailgylchu | **15.00** |
| **Uned Darparu Bwrdeistrefol** | |
| Diogelwch Asedau a Storfeydd | **30.00** |
| Rheolaeth Fflyd | **20.00** |
| **GWASANAETH TAI** | |
| **Ar draws y gwasanaeth** | |
| Grant "Independence and Wellbeing" | **15.00** |
| Cymunedau o Angen - gwyriadau ac ymyrraeth (Cynllun 3 blynedd) | **15.00** |
| **Rheolaeth a Rhenti a Thai Cefnogol** | |
| Cynllun Warden Stâd | **12.00** |
| Rhestrau Aros Tai NEU Trefniadau Trosglwyddo'r Stoc Dai | **15.00** |
| **Tai Sector Breifat** | |
| Addasiadau Lles: Monitro, Rheolaeth a Gorfodaeth | **20.00** |
| Partneraeth Gwella Tai - "Houseproud" | **10.00** |
| Trefniadau dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd (Cynllun 3 blynedd) | **12.00** |
| **Uned Weithredol Cynnal a Chadw Tai** | |
| Cyfrifon Terfynol: Tai | **10.00** |

Draft

## GWASANAETH YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Adeiladau** | |
| Gwasanaethau Adeiladu - Blaenoriaethu Gwaith | **15.00** |
| **Ar draws y gwasanaeth** | |
| Contractau Cyfredol: Ymgynghoriaeth Gwynedd | **5.00** |
| Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd | **10.00** |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd - Dethol Contractwyr | **15.00** |

## GWASANAETH YSGOLION

| | |
|---|---|
| **Ategol** | |
| Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **10.00** |
| Grant Trosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 | **5.00** |
| Grant Cymorth i Benaethiaid Mewn Ysgolion Bach | **3.00** |
| Grant Addysg ôl-16 | **1.00** |
| **Ysgolion Arbennig** | |
| Ysgol Coed Menai | **6.00** |
| Ysgol Pendalar | **6.00** |
| Ysgol Hafod Lon | **6.00** |
| **Ysgolion Cynradd** | |
| Ysgolion Cynradd - Trefniadau Recriwtio Staff Ategol ac Athrawon Llanw | **24.00** |
| Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd | **25.00** |
| Cronfeydd Answyddogol | **6.00** |
| **Ysgolion Cynradd ac Uwchradd** | |
| Cludiant i Ysgolion | **12.00** |
| Integreiddio | **20.00** |
| **Ysgolion Uwchradd** | |
| Ysgol Brynrefail | **12.00** |
| Ysgol Y Gader | **11.00** |
| Ysgol Y Moelwyn | **11.00** |
| Ysgol Y Berwyn | **12.00** |
| Ysgol Syr Hugh Owen | **12.00** |

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

| | |
|---|---|
| **Ar draws y gwasanaeth** | |
| Cyllidebu Datganoledig (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) | **25.00** |
| Partymau Gwariant Gwasanaethau Oedolion (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) | **15.00** |
| Fformiwlau Cost Uned (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) | **12.00** |
| Taliadau i Gartrefi Preswyl Annibynnol | **20.00** |
| Uned Hawliau Lles | **10.00** |

Draft

| Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|
| Plant - Basdata Gweithwyr Asiantaeth (Cynllun 3 blynedd) | **20.00** |
| Gwasanaethau Plant - "referrals" a goruchwylio | **25.00** |
| Cefnogaeth i Deuluoedd | **15.00** |
| System Cynllunio Dyfodol Plant a Phobl Ifanc Mewn Gofal (Cynllun 3 blynedd) | **12.00** |
| RAISE | **15.00** |
| **Canolog (Plant a Theuluoedd)** | |
| System Integredig Plant | **10.00** |
| **Uned Contractau** | |
| Contractau a Gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) | **25.00** |
| **GWASANAETHAU DARPARU A HAMDDEN** | |
| **Dydd a Phreswyl** | |
| Plas Maesincla, Caernarfon | **8.00** |
| Plas y Don, Pwllheli | **8.00** |
| Plas Hedd, Bangor | **8.00** |
| Cefn Rodyn, Dolgellau | **8.00** |
| Arian Personol Preswylwyr Cartrefi | **20.00** |
| Cartrefi Preswyl - Cronfeydd Answyddogol | **15.00** |
| **Hamdden a Datblygu Chwaraeon** | |
| Pwll Nofio Bangor | **8.00** |
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | **8.00** |
| Canolfan Hamdden Dwyfor | **8.00** |
| Canolfan Hamdden Bro Dysynni | **8.00** |
| | **1,573.00** |

Draft